Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Mark Drakeford AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO/RB/SG

3 Rhagfyr 2012

Annwyl Mark

**Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)**

Rwyf wedi ysgrifennu at Mick Antoniw heddiw i gadarnhau fy marn, yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fod y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw pan gyflwynir y Bil.

Fodd bynnag, nid oedd fy mhenderfyniad yn yr achos hwn yn un syml. Rwyf wedi cael cyngor y gellir cyflwyno dadleuon dilys nad yw nifer o'r darpariaethau yn y Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, o bosibl. Mae'r penderfyniad yr wyf wedi'i wneud o ran y meysydd hyn wedi golygu llawer o bwyso a mesur i sicrhau cydbwysedd.

Yn y cyfamser, rwy'n cynnwys, er gwybodaeth i chi, grynodeb o'r materion a ystyriwyd gennyf wrth ddod i benderfyniad ar gymhwysedd deddfwriaethol. Teimlaf ei bod yn briodol ac yn bwysig rhannu'r cyngor hwn gyda chi, er mwyn cydnabod a hwyluso rôl Aelodau'r Cynulliad ar eich Pwyllgor wrth graffu ar y Bil hwn. Bydd y cyfreithiwr a'r Clerc sy'n cefnogi'r Pwyllgor yn y gwaith craffu hwnnw yn gallu darparu gwybodaeth fwy manwl am y materion hyn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8911
Ebost/Email: private.office@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Dyma'r tro cyntaf i ni ddatgelu'r materion anodd ynghylch cymhwysedd a ystyriwyd gennyf. Hefyd, dyma'r achos cyntaf sydd wedi peri i faterion o'r fath godi ers y dyfarniad diweddar yn y Goruchel Lys. Nid oes amheuaeth bod materion sensitif yn codi o ran sut y mae'r Cynulliad yn trafod materion o gymhwysedd deddfwriaethol wrth i Fil fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol. Bydd y staff sy'n cefnogi eich pwyllgor yn gallu rhoi cyngor ar y materion hyn a byddaf, wrth gwrs, yn hapus iawn i'w trafod â chi wyneb yn wyneb.

Yn y cyfamser, byddaf yn anfon llythyr tebyg at David Melding fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Rhaid i mi bwysleisio mai'r cyngor yr wyf wedi'i gael, ac yr wyf wedi seilio fy mhenderfyniad arno, yw y gellir datgan yn ddilys fod darpariaethau'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fodd bynnag, rwyf am sicrhau bod y materion yr wyf wedi eu hystyried yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgorau er mwyn iddynt allu cael eu hystyried ymhellach wrth graffu ar y Bil, os yw Aelodau'n dymuno gwneud hynny.

Memorandwm Ariannol

Mae'r Rheolau Sefydlog hefyd yn ei gwneud yn ofynnol fy mod yn penderfynu a fydd angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil hwn ai peidio. Ar ôl ystyried y Memorandwm Esboniadol sy'n cydfynd â'r Bil, credaf y bydd angen penderfyniad ariannol ar ei gyfer, yn unol â Rheolau Sefydlog 26.69(ii) a 26.70.

Rosemary

**Rosemary Butler AC, Llywydd**